

SWYDDI CYNGOR
RHONDDA CYNON TAF
COUNCIL JOBS

RHONDDA CYNON TAF







Pecyn Gwybodaeth i Ymgeiswyr

Candidate Information Pack

DISGRIFIAD SWYDD

Rheolwr y Garfan Strwythurau

Arwain a rheoli darpariaeth Gwasanaethau Rheoli Asedau Isadeiledd effeithlon, ymatebol ac o ansawdd uchel yn effeithiol yn y Gwasanaeth Rheoli Asedau Isadeiledd.

Gweithredu fel arweinydd yn yr Awdurdod Cymeradwyo Technegol ar gyfer y Cyngor mewn perthynas â strwythurau sy'n gysylltiedig â phriffyrdd a pheirianneg sifil.

Cyfeirnod y Swydd: ***002005***
Dyddiad y Disgrifiad Swydd: 3 Rhagfyr 2025
Fersiwn: 1:1

Gradd	GR15
Canolfan/Swyddfa/Gweithle	2 Llys Cadwyn, Pontypridd (a gweithio hyblyg pan fo'n addas)
Cyfadran:	Gwasanaethau'r Amgylchedd
Uwchadran:	Priffyrdd, Trafnidiaeth a Pheirianneg
Adran	Gwasanaethau Technegol y Priffyrdd
Carfan/Is-adran	Strwythurau Priffyrdd
Yn atebol i	Pennaeth Rheoli Asedau Isadeiledd
Swyddi sy'n atebol i'r swydd hon	Swyddi Strwythurau dan Adolygiad Ar hyn o bryd: 1x GR13 3xGR11 5xGR10 2xGR8 2xGR6 Rolau Graddedig/Prentis fel sydd wedi'u neilltuo
Oes angen gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd?	Nac oes

Pam gweithio i Gyngor Rhondda Cynon Taf?

Cyngor Rhondda Cynon Taf yw un o'r awdurdodau lleol mwyaf yng Nghymru. Dyma ein delfryd ar gyfer Rhondda Cynon Taf: "Mae modd i bob person, cymuned a busnes dyfu a byw mewn Bwrdeistref Sirol iach, gwyrdd, diogel, bywiog a chynhwysol lle mae modd iddyn nhw gyflawni eu llawn botensial ym mhob agwedd ar eu bywydau a'u gwaith, nawr ac yn y dyfodol."

Os ydych chi'n gweithio i ni, mae eich gwaith yn cyfrannu at wneud gwahaniaeth cadarnhaol yn ein cymunedau.
Rydyn ni wedi ymrwymo i greu amgylchedd gwaith cynhwysol sy'n rhoi boddhad, ac sy'n adlewyrchu ein gwerthoedd a'n blaenoriaethau.

Rydyn ni'n darparu rhaglenni sefydlu, hyfforddi a datblygu rhagorol i'ch helpu i dyfu yn eich swydd a'ch gyrfa. Byddwch chi'n cael eich herio a'ch cefnogi trwy gyfleoedd newydd i feithrin sgiliau newydd a throsglwyddadwy wrth ichi wneud gwahaniaeth.

Llesiant a Chydbwysedd Gwaith-Bywyd
Yn ein Strategaeth Llesiant y Gweithlu gynhwysfawr, sy'n cydnabod y nifer o elfennau sy'n dylanwadu ar lesiant cyffredinol. Rydyn ni'n cynnig ystod eang o fuddion a gwasanaethau cymorth i'ch helpu i ffynnu yn y gweithle.

Bydd modd i chi gael ystod eang o fuddion staff gan gynnwys Aelodaeth **Hamdden am Oes** am bris gostyngol, Cerdyn 'Vivup' i gael gostyngiadau ar gannoedd o gynhyrchion a gwasanaethau a chynllun **Beicio i'r Gwaith**.

Rydyn ni'n comisiynu **Rhaglen Cymorth i Weithwyr** sy'n rhoi modd i gael cymorth ynglŷn â lles 24/7 yn ogystal â chyfoeth o adnoddau ar-lein gan gynnwys llyfrau gwaith hunangymorth, podlediadau ac asesiadau iechyd.

Mae'n **cynllun pensiwn** ni yn cynnig buddion cystadleuol, gydag arbedion ariannol ychwanegol i'w cael gyda gostyngiadau ar gannoedd o gynhyrchion a thechnoleg a chynlluniau prynu ceir sy'n darparu ffyrdd ychwanegol o reoli cyllid personol, i gyd ar gael drwy'r wefan **buddion staff**. Mae cyfleoedd pellach i hybu lles ariannol drwy ddysgu mwy yng ngweithdai **Salary Finance**.

Yn ogystal â hynny, rydyn ni'n cefnogi cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith drwy bolisïau hyblyg sy'n addas i deuluoedd ynghyd â chynnig gwyliau blynyddol hael, gan ddechrau ar 26 diwrnod (pro rata) yn cynyddu i 31 diwrnod ar ôl 5 mlynedd o wasanaeth, ynghyd ag 8 gŵyl gyhoeddus a'r opsiwn i brynu gwyliau blynyddol ychwanegol (hyd at 10 diwrnod pro rata). Mae ein gweithle cynhwysol hefyd yn dathlu amrywiaeth gyda nifer o rwydweithiau staff gan gynnwys Rhwydwaith y Cynghreiriaid, Rhwydwaith Anabledd a Chynhalwyr, 'Perthyn' (rhwydwaith LHDTC+) a Sbotolau (sydd yn agored i staff Du, Asiaidd, a staff sydd o grwpiau ethnig lleiafrifol).

Bwriwch olwg ar ein tudalennau gyrfaoedd i gael rhagor o wybodaeth am weithio i ni.

Diben y swydd:

Arwain a rheoli darpariaeth gwasanaethau Rheoli Asedau Strwythurol effeithiol, effeithlon, ymatebol ac o ansawdd uchel yn y Gwasanaethau Rheoli Asedau Isadeiledd gan ystyried dyletswyddau o dan Ddeddf y Priffyrdd a'r holl ddeddfwriaeth berthnasol.

Rheoli risg drwy weithredu cyfundrefn archwilio briodol o'r holl asedau sy'n cael eu rheoli a'u cynnal yn y maes gwasanaeth yma a gweithredu strategaeth cynnal a chadw ac ailosod.

Gweithredu fel arweinydd yn yr Awdurdod Cymeradwyo Technegol ar gyfer y Cyngor mewn perthynas â strwythurau sy'n gysylltiedig â phriffyrdd a pheirianneg sifil.

Rheoli cyfrifoldebau'r cyngor o dan y Rheoliadau Cynllunio a Rheoli Gwaith Adeiladu (CDM) ac unrhyw ddeddfwriaeth yn y dyfodol fel Cleient.

Cynorthwyo â gwaith cydlynu darpariaeth y Cyngor o ran ei ddyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddfwriaeth Datblygu Cynaliadwy arall.

Yr hyn byddwch chi'n ei gyflawni:

1. Arwain a rheoli'r Garfan Strwythurau yn yr Adran Rheoli Asedau Isadeiledd.
2. Cyfrannu at gyflawni amcanion a thargedau cyflawniad sy wedi'u nodi yn y cynllun busnes.
3. Cynorthwyo Rheolwr y Gwasanaeth a Rheolwr Isadeiledd y Priffyrdd â gwaith llunio polisïau ar gyfer rheoli a chynnal y Priffyrdd yn unol â gofynion deddfwriaeth sy'n ymwneud â'r Priffyrdd, Codau Ymarfer priodol ac is-ddeddfwriaeth.
4. Datblygu a rheoli'r rhaglenni gwaith Cyfalaf a Refeniw mewn perthynas â'r strwythurau sy'n cael eu rheoli gan y garfan.
5. Ymgymryd â chyfrifoldeb ariannol a chyfrifoldebau fel sydd wedi'u nodi yng Nghynllun Dirprwyo'r swydd.
6. Darparu gwybodaeth berthnasol i Reolwr Gwasanaeth Isadeiledd y Priffyrdd i ddatblygu Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd ymhellach.
7. Cyfrannu'n gadarnhaol ac mewn modd gweithredol at waith rheoli cyffredinol Gwasanaethau'r Priffyrdd.
8. Bod yn gyfrifol am sicrhau bod deddfwriaeth, rheoliadau a rhwymedigaethau statudol eraill sy'n berthnasol yn cael eu bodloni.
9. Bod yn gyfrifol am gyflawni'r holl Arolygiadau Strwythurol a phenderfynu/gweithredu ar waith monitro mewn perthynas â Rhestr Strwythurau'r Awdurdod.
10. Cyfathrebu ag ymgynghorwyr allanol a mewnol yn ôl yr angen wrth gyflawni prosiectau.
11. Cynyddu nifer y prosiectau sy'n cael eu cyflawni gan wasanaethau mewnol, a'u gwella.
12. Rheoli Asedau Priffyrdd Geodechnegol a goruchwylio'r cyngor sy'n cael ei ddarparu yn yr awdurdod.

Yr hyn byddwch chi'n ei gyflawni:

13. Rheoli carfan o Beirianwyr/Staff Technegol wrth gydlynu ac ymgymryd â'r holl Archwiliadau Strwythurol, monitro a dylunio manwl lle bo angen.
14. Sefydlu systemau rheoli gan sicrhau bod y garfan yn cydymffurfio â'r amserlen arolygiadau strwythurol sydd wedi'i hargymell.
15. Sicrhau bod pob arolygiad yn cael ei gwblhau i'r safon briodol ac i amserlen benodol.
16. Bod yn gyfrifol am gomisiynu cyngor arbenigol yn ôl yr angen.
17. Cysylltu yn ôl yr angen ag ymgynghorwyr allanol wrth fonitro a darparu Arolygiadau Strwythurol arbenigol.
18. Cynrychioli'r Cyngor mewn cyfarfodydd gyda chyrff ariannu allanol ac amrywiaeth o randdeiliaid.
19. Cysylltu â sefydliadau allanol ac amrywiaeth o gydweithwyr corfforaethol eraill, a gweithio'n llwyddiannus gyda nhw wrth gyflawni prosiectau.
20. Cynorthwyo Rheolwr y Gwasaneth wrth ddarparu gwybodaeth ariannol a rheoli gynhwysfawr i gefnogi ceisiadau am gyllid.
21. Bod yn gyfrifol am gyflawni proses yr Awdurdod Cymeradwyaeth Dechnegol ar ran y Cyngor.
22. Bod yn gyfrifol am ymateb i ymholiadau Gofal i Gwsmeriaid mewn perthynas ag asedau strwythurol.
23. Ymgymryd â gwaith dylunio strwythurol lle bo hynny'n briodol neu ei oruchwylio gan ddefnyddio'r feddalwedd berthnasol/CAD yn unol â'r safonau Prydeinig perthnasol.
24. Darparu neu oruchwylio'r broses o ddarparu cyngor technegol arbenigol i adrannau eraill y Cyngor, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r garfan Rheoli Adeiladu, a hynny mewn perthynas â strwythurau peryglus a charfanau perthnasol ynghylch stadia chwaraeon ac achlysuron.
25. Cyflawni cyfrifoldebau iechyd a diogelwch yn unol â dogfen Cyfrifoldebau Iechyd a Diogelwch yr Uwchadran
26. Cyflawni unrhyw ddyletswyddau a chyfrifoldebau rhesymol eraill sy'n gymesur â'r swydd ar gais Pennaeth y Gwasanaethau, Cyfarwyddwr y Gwasanaeth neu yng ngoleuni cyfle cytûn i ddatblygu'n broffesiynol.

Cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch y Cyngor ac ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau iechyd a diogelwch perthnasol yn unol â threfniadau lleol.

Rhoi cymorth i'r Cyngor chwarae ei ran i fynd i'r afael â Newid yn yr Hinsawdd ac i gyrraedd ei dargedau Lleihau Carbon ar draws yr holl wasanaethau y mae'n eu darparu a hefyd o ran y nwyddau a'r gwasanaethau hynny y mae'n eu prynu neu'n eu comisiynu gan sefydliadau eraill.

Mae gyda phob aelod o staff ran werthfawr a hanfodol i'w chwarae i gadw pobl yn ddiogel. Mae cyfrifoldeb ar unrhyw berson sydd â phryderon ynghylch diogelwch plentyn neu oedolyn sy'n agored i niwed, NEU ymddygiad cydweithiwr tuag at blentyn neu oedolyn sy'n agored i niwed, i roi gwybod am hyn ar unwaith. Dylid gwneud hyn trwy Reolwr Llinell yr unigolyn, yr Arweinydd Diogelu Dynodedig neu drwy gysylltu â Hwb Diogelu Amlasiantaeth Cwm Taf.

Yr hyn byddwch chi'n ei gyflawni:

BYDD CYNNWYS Y DDOGFEN YMA YN CAEL EI ADOLYGU O BRYD I'W GILYDD GAN YMGYNGHORI Â DEILIAD Y SWYDD. EFALLAI BYDD NEWID I DDISGRIFIADAU SWYDDI YN SGIL HYNNY.

MANYLEB PERSON

Mae'r fanyleb yma'n nodi gwybodaeth a/neu gymwysterau, profiad yn y gorffennol, a chymwyseddau personol a fyddai'n ddelfrydol ar gyfer y swydd benodol yma.

Mae'r adrannau Gwybodaeth/Cymwysterau a Phrofiad yn disgrifio'r gallu technegol sy'n angenrheidiol er mwyn gwneud y swydd yma yn llwyddiannus.

Mae'r adran **Cymwyseddau** yn disgrifio'r mathau o sgiliau (heb fod yn dechnegol), y galluoedd, a'r nodweddion personol, a fyddai gan y person sy'n ddelfrydol ar gyfer y swydd benodol hon. Mae'r Cymwyseddau yn disgrifio sut y byddai'r person hwnnw, yn ddelfrydol, yn gweithio gyda phobl eraill, a sut y byddai'n ymgymryd â'i gyfrifoldebau.

Mae'r adran **Amodau Arbennig a Gofynion Proffesiynol** yn disgrifio unrhyw briodoleddau eraill sy'n briodol i'r amgylchiadau penodol a fo'n ymwneud â'r swydd hon.

Gwybodaeth/Cymwysterau:

Hanfodol	Dymunol
Cymhwyster perthnasol i lefel Gradd BSc Anrhydedd mewn Peirianneg Sifil neu gyfwerth	Y gallu i siarad Cymraeg (neu barodrwydd i ddysgu Cymraeg)
Aelod Siartredig o Sefydliad y Peirianwyr Sifil neu'r Sefydliad Peirianyddion Strwythurol neu gyfwerth	Gwybodaeth am reoli asedau, gweithdrefnau a pholisïau'r awdurdod lleol
Gwybodaeth ragorol am broblemau Gwasanaethau Technegol y Priffyrdd	Gwybodaeth am systemau rheoli asedau AMX
Cymhwyster rheoli Lefel 2 ILM o leiaf, neu fod yn barod i weithio tuag ato	Cymhwyster rheoli rhaglenni neu reoli prosiectau

Profiad:

Hanfodol	Dymunol
Profiad o reoli a chynnal a chadw asedau strwythurau'r priffyrdd a mannau cyhoeddus	Profiad o reoli Carfan Strwythurau'r Priffyrdd
Profiad o gynnal neu oruchwylio Prif archwiliadau ac archwiliadau Cyffredinol o strwythurau'r priffyrdd	Rôl Awdurdod Cymeradwyo Technegol Strwythurau'r Priffyrdd
Profiad o ddylunio ac/neu asesu strwythurau'r priffyrdd	Profiad o ddylunio/rheoli strwythurau/mesurau geodechnegol

Profiad o adeiladu a chynnal a chadw strwythurau priffyrdd fel pontydd, waliau cynnal a chwlfertau â diamedr mwy	Profiad o Reoli Carbon Prosiectau
Profiad o asesu ac ymgymryd â phroses o fonitro strwythurau priffyrdd o bryd i'w gilydd	Profiad â safonau Rheoli Asedau
Profiad o ymgymryd â rôl Cleient a/neu Brif Ddylunydd o dan Reoliadau CDM 2015	Profiad o Reoli Cyllid a Gweithdrefnau Ariannol
	Profiad o reoli Asesiadau Risg Iechyd a Diogelwch a Lles Cydweithwyr

Lefelau Sgiliau Cymraeg:

Hanfodol	Dymunol
Cymraeg Lefel 1 ☒ *Bydd raid i bob gweithiwr gymryd rhan mewn sesiwn cyflwyniad i'r Gymraeg i gyrraedd y lefel yma* Cymraeg Lefel 2 ☐ Cymraeg Lefel 3 ☐ Cymraeg Lefel 3-5 ☐ Cymraeg Lefel 4 ☐ Cymraeg Lefel 5 ☐	Cymraeg Lefel 2 ☒ Cymraeg Lefel 3 ☐ Cymraeg Lefel 3-5 ☒ Cymraeg Lefel 4 ☐ Cymraeg Lefel 5 ☐
I gael manylion ynglŷn â'r lefelau, bwriwch olwg ar y Canllaw Sgiliau Iaith Gymraeg ar-lein: http://www.rctcbc.gov.uk/SgiliauCymraeg.	

Y sgiliau byddwch chi'n eu defnyddio yn y gweithle:

Fframwaith	**Fframwaith Cymwyseddau Rheolwyr Canol**
Meysydd Cymhwysedd	**Ymddygiadau a Gwerthoedd Cymhwysedd**
Datblygu a Chymell Pobl	Ysbrydoli pobl eraill drwy ddangos brwdfrydedd a thrwy feithrin agwedd gadarnhaol tuag at waith Arwain drwy esiampl Mynd ati i rannu gwybodaeth a phrofiad ag eraill er mwyn datblygu'r gwasanaeth

Gweithio'n rhan o bartneriaeth ac mewn carfan	Meithrin cysylltiadau parhaus, cadarnhaol a chefnogol gyda phob math o bobl wahanol Ymroi i ddeall a datrys gwahaniaethau mewn agendâu, amcanion a disgwyliadau bob amser
Cyfathrebu'n effeithiol	Rhoi'r negeseuon cywir i'r bobl gywir yn ddi-oed ac yn rhoi gwybod iddyn nhw am yr wybodaeth ddiweddaraf Cyfathrebu mewn ffordd glir, groyw a hawdd ei deall
Rheoli Newid	Deall a chroesawu newidiadau angenrheidiol er mwyn ymateb yn effeithiol i heriau'r dyfodol Gwneud i syniadau a mentrau newydd weithio'n ymarferol iddo fe / iddi hi ei hunan a gweddill y garfan
Gweithredu Strategaeth	Dangos dealltwriaeth dda o'r blaenoriaethau strategol allweddol drwy eu hymgorffori yn amcanion y garfan Herio darpariaethau gwasanaethau er mwyn sicrhau dyfodol mwy cynaliadwy i wella safon bywyd pobl a safon yr amgylchedd
Rheoli Adnoddau	Gwerthuso ac yn ymateb yn barhaus i anghenion y gwasanaeth er mwyn gwella materion effeithlonrwydd, ansawdd a gwerth y broses cynnal gwasanaethau (Cynllunio'r Gweithlu) Dangos dealltwriaeth dda o lwyth gwaith y garfan ac yn ystyried hyn wrth gynllunio
Sicrhau canlyniadau	Canolbwyntio ar ddeilliannau a bodloni amserlenni Dangos ystyriaeth ac ymroddiad cyson i faterion iechyd, diogelwch a lles pobl eraill, gan gynnwys iechyd meddwl
Canolbwyntio ar ddefnyddwyr y gwasanaeth	Mynd ati mewn ffordd ragweithiol i gael adborth gan ddefnyddwyr y gwasanaeth/cwsmeriaid, gwrando ar yr adborth a ddaw i law ac ymateb mewn ffordd gadarnhaol Rhoi'r gallu i staff ymdrin ag ymatebion yn y rheng flaen, ac yn darparu cefnogaeth a chymorth ble bo angen hynny
Gwybodaeth ac ymwybyddiaeth wleidyddol	Gweithio i gynnal perthnasoedd cadarnhaol â gwleidyddion ac yn eu trin fel cwsmeriaid mewnol Dangos dealltwriaeth dda o'r prosesau gwleidyddol sy'n bod yn y Cyngor

Amodau Arbennig a Gofynion Proffesiynol

Y modd i deithio'n annibynnol ledled y Fwrdeistref Sirol